| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 27 Chwefror 2024 |
| **Swyddog / Aelod Arweiniol** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Lisa Jones, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Teitl** | Adolygu cyfansoddiad Panel Recriwtio'r Pwyllgor Safonau. |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adolygu cyfansoddiad y panel recriwtio sy'n penodi aelodau lleyg (annibynnol, anetholedig) i Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi argymell dod â'r adroddiad hwn gerbron y Cyngor Llawn er mwyn ystyried a ddylid gostwng nifer yr aelodaeth etholedig ar y panel i 2 (o 3) a bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n disodli un o'r aelodau etholedig.

2.1 Cymeradwyo aelodaeth y panel recriwtio'n ffurfiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nid oes unrhyw argymhellion gan swyddogion ac mae'r Pwyllgor Safonau o blaid y newid mewn egwyddor; mater i Aelodau'r Cyngor, fodd bynnag, yw trafod y newid a phenderfynu a ddylid ei gymeradwyo, gan ystyried y cynnydd bach mewn costau a nodir isod, a cholli un o'r tair o seddi ar y panel recriwtio.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Gŵyr y Cyngor Llawn bod y mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor Safonau yn unigolion anetholedig a benodwyd yn sgil hysbyseb cyhoeddus a chyfweliad.

4.2. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi trafod y syniad o gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor yn y panel sy'n cynnal unrhyw gyfweliadau yn y dyfodol ac yn penderfynu

ynghylch argymell penodi aelodau annibynnol (lleyg) i Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Cytunodd y Pwyllgor Safonau y dylid dod ag adroddiad gerbron y Cyngor.

4.3. Mae paragraff 15 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 yn datgan bod yn rhaid i bob Cyngor yng Nghymru sefydlu panel recriwtio sy'n cynnwys dim mwy na 5 o aelodau. Mae'n rhaid bod un ohonynt yn aelod o'r cyhoedd nad yw'n aelod etholedig na lleyg o'r Cyngor; hynny yw, yn gwbl annibynnol ar y Cyngor, ac mae'n rhaid bod un o aelodau'r panel yn aelod o gyngor cymuned yn ardal yr awdurdod lleol dan sylw. Mae yno dair o seddi'n weddill, felly, ac wrth sefydlu'r panel recriwtio fe benderfynodd Cyngor Sir Ddinbych y dylid neilltuo'r rheiny i'r tri phrif grŵp gwleidyddol.

4.4. Y pump o'r aelodau hyn sy'n ffurfio'r panel ffurfiol sy'n argymell penodiadau. Bu'n arfer mewn blynyddoedd diweddar hefyd i wahodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i'r cyfweliadau fel arsyllwr, gan ystyried mor bwysig yw sefydlu perthynas waith dda a chydweithio mewn tîm ag aelodau annibynnol lleyg y Pwyllgor Safonau.

4.5. Gofynnir i'r Cyngor, felly, ystyried a ddylid gostwng nifer aelodau etholedig y Cyngor Sir ar y panel recriwtio o 3 i 2. Y Cyngor Llawn yn unig all wneud y penderfyniad hwn.

4.6. Mae aelodau annibynnol yn dal eu swyddi am gyfnodau penodedig a bydd angen cynnal trefn recriwtio i benodi aelodau newydd yn lle'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol y flwyddyn nesaf. Byddai'n fuddiol, felly, pe byddai'r Cyngor hefyd yn cadarnhau a yw'n fodlon penodi'r ddau o aelodau etholedig sydd ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd i'r panel recriwtio, ynghyd â'r aelod cymunedol a'r aelod o'r cyhoedd sy'n cyfrannu at y drefn yn unol â'r rheoliadau. Enwir y rhain ym mharagraff 4.7 isod.

4.7. Yr aelod cyngor cymuned yw Gordon Hughes, Cyngor Tref Corwen. Y ddau o aelodau etholedig ar y Pwyllgor Safonau yw'r Cynghorydd Bobby Feeley a'r Cynghorydd (i'w gadarnhau); yr aelod annibynnol sy'n cynrychioli'r cyhoedd yw Noela Jones.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Ni fydd unrhyw effaith negyddol na chadarnhaol ar y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd cost ychwanegol yn deillio o dalu'r gyfradd safonol fesul diwrnod i'r Cadeirydd os bydd gofyn iddo fod yn aelod o'r panel recriwtio hefyd, gan y byddai'n ofynnol i'r unigolyn hwnnw fod yn bresennol a'u bod felly'n gymwys i dderbyn tâl.  Y gyfradd fesul diwrnod llawn yw £268.00 ar hyn o bryd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid yw'n ofynnol asesu'r effaith ar les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Safonau fel y nodir yn yr adroddiad.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg bennaf a nodwyd yw bod un o'r tri phrif grŵp gwleidyddol heb gynrychiolaeth ar y panel recriwtio os gwneir y newid.  Mae Pwyllgorau Safonau'n meddu ar y grym i atal unrhyw aelod o'i swydd os canfyddir ei fod wedi torri'r Côd Ymddygiad.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001.